

## Datganiad Ysgrifenedig

### Y Cytundeb Cydweithio – Busnes y Senedd

Yn dilyn fy natganiadau ar 1 a 7 Rhagfyr am y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru, rwyf wedi ystyried ymhellach effaith y Cytundeb ar Fusnes y Senedd ac yn benodol, rôl newydd yr Aelodau Dynodedig. Rwyf wedi trafod y sefyllfa gydag aelodau'r Pwyllgor Busnes ac rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Aelodau hynny sydd wedi cysylltu â mi i rannu eu safbwyntiau personol.

Er bod y cyngor cyfreithiol yn ei gwneud yn glir nad yw Plaid Cymru yn grŵp sy'n meddu ar rôl weithredol, mae Plaid Cymru yn parhau i fod yn wrthblaid yn y Senedd ond yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru hefyd, erbyn hyn, ar raglen bolisi y cytunwyd arni. Mae hi wedi pennu'r term cyd-wrthblaid ar ei chyfer. Fy nod yma yw adlewyrchu'r rôl newydd hon yn fwy priodol ym musnes y Senedd. Bydd gan Aelodau Dynodedig ac Arweinydd Plaid Cymru fynediad at wybodaeth, ac fe fyddan nhw'n cael cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd sy'n ymwneud â'r meysydd a gwmpesir gan y Cytundeb. Mae hyn yn codi cwestiynau am rôl Plaid Cymru – a'r Aelodau Dynodedig yn enwedig – yn swyddogaethau craffu'r Senedd. Rwy'n croesawu ymrwymiad Plaid Cymru i gyhoeddi manylion Aelodau Dynodedig a'u meysydd cyfrifoldeb.

Bydd yn cymryd amser i effaith y Cytundeb ddod yn gwbl amlwg, ond fy mwriad yw defnyddio fy nisgresiwn i addasu busnes y Cyfarfod Llawn fel a ganlyn o ddechrau tymor y Gwanwyn ymlaen:

- Bydd Arweinydd Plaid Cymru yn parhau i allu gofyn 3 chwestiwn heb rybudd i'r Prif Weinidog bob wythnos, er na fyddwn yn disgwyl i'r cwestiynau hynny gael eu defnyddio i hyrwyddo unrhyw feysydd polisi a gwmpesir gan y Cytundeb. Dylai cwestiynau i unrhyw Weinidogion ganolbwyntio ar graffu ar waith y Gweinidogion hynny ac fel y cyfryw, rwy'n disgwyl i Arweinydd Plaid



Cymru lunio cwestiynau yn unol â hynny. At hynny, fy mwriad yw archwilio ymhellach gyda'r Pwyllgor Busnes sut i hwyluso proses y Senedd o graffu ar waith Aelodau Dynodedig ac Arweinydd Plaid Cymru, o bosibl yn fisol yn achos yr Arweinydd, yn hytrach na chwestiynau'r Arweinydd i'r Prif Weinidog;

- Caiff nifer y cwestiynau heb rybudd gan lefarwyr Plaid Cymru eu cyfyngu i 2 fesul sesiwn cwestiynau Gweinidogol;
- Ni fydd Aelodau Dynodedig yn cael eu galw i ofyn Cwestiynau'r Llefarwyr;
- Ni fydd Arweinydd Plaid Cymru nac Aelodau Dynodedig yn gallu gofyn cwestiynau (cwestiynau wedi'u cyflwyno na chwestiynau atodol), na chyfrannu at ddatganiadau ar bynciau heblaw'r rheini sy'n ymwneud â materion etholaethol neu ranbarthol. Gall Arweinydd Plaid Cymru gyfrannu at ddatganiadau gan y Prif Weinidog;
- Gall Aelodau Dynodedig ac Arweinydd Plaid Cymru gyfrannu at ddadleuon, ond rwy'n disgwyl iddyn nhw ddatgan unrhyw fuddiannau ac arfer synnwyr cyffredin o ran yr hyn sy'n briodol, o ystyried eu rolau o dan y Cytundeb;
- Bydd cymhareb yr amser ar gyfer cynnal dadl wrthblaid a ddyrennir i Blaid Cymru yn cael ei gostwng yn ôl nifer yr Aelodau Dynodedig (gan gynnwys Arweinydd Plaid Cymru) gyda'r amser yn cael ei ryddhau yn sgil ailddyrrannu'r gweithgaredd hwn ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai grŵp, er enghraifft dadl Aelodau.

Byddaf yn gwarchod hawliau grŵp y Ceidwadwyr a phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol, er enghraifft drwy barhau i alw Aelodau o grŵp y Ceidwadwyr yn gyntaf. Yn ôl fy arfer, sicrheir y bydd gan Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyfraniad mewn sesiynau cwestiynau. Bydd trefn siaradwyr eraill yn adlewyrchu'r cydbwysedd priodol rhwng Aelodau Llafur ar y meinciau cefn a Phlaid Cymru.

Er mai mater i'r Pwyllgor Busnes yw'r modd y mae pwyllgorau'n gweithredu, fy marn i yw na ddylai Aelodau Dynodedig gadeirio unrhyw bwyllgorau sy'n ymwneud â'u maes cyfrifoldeb o dan y Cytundeb, na bod yn aelodau o'r Pwyllgorau hynny. Gallai'r mater hwn fod yn arbennig o berthnasol i bwyllgorau trawsbynciol fel Cyllid, Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Rwy'n cydnabod y gallai

pwyllgorau'r Senedd fod eisiau craffu ar waith yr Arweinydd neu'r Aelodau Dynodedig ar y Cytundeb, a bod ganddynt y pŵer i wneud hynny os dymunant.

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes ddyraniad Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Cyllid i grŵp Plaid Cymru, o ystyried eu hymrwymiad i gytundeb hirdymor ar y gyllideb. Yn absenoldeb mwyafrif dros newid yn y Pwyllgor Busnes, mae'r *status quo* yn parhau. Fy marn bersonol fel Llywydd yw y byddai uniondeb y broses gyllidebol yn cael ei gynnal yn well pe na bai'r pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod o grŵp sydd wedi mynd i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchiad o'r cadeirydd presennol, sy'n ennyn parch mawr yr holl Aelodau.

Mae'r trefniadau uchod yn newidiadau ar unwaith ac yn newidiadau cynyddrannol i'n cyfarfodydd llawn, er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n codi o'r Cytundeb.

Fel y cydnabyddais yn flaenorol, fel democratiaeth sy'n esblygu dylem fod yn barod i lywodraethu mewn ffyrdd gwahanol sy'n gweithio er budd pobl Cymru ac rwy'n croesawu unrhyw gamau gan bleidiau gwleidyddol i ddwyn safbwyntiau gwahanol ynghyd er lles cyffredin.

Fel Senedd, byddwn yn archwilio a ddylid gwneud unrhyw newidiadau yn y tymor hwy i'n harferion a'n gweithdrefnau er mwyn adlewyrchu natur newydd y Cytundeb hwn. Byddaf yn parhau i adolygu materion wrth i'r Cytundeb ddatblygu ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf.

Elin Jones AS

Y Llywydd

15 Rhagfyr 2021